| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 15 Rhagfyr 2011 |
| **TEITL** | Ad-drefnu Ysgolion Dwyrain Dalgylch Y Gader |
| **PWRPAS** | Ceisio cefnogaeth y Cyngor i'r argymhellion i ad-drefnu ysgolion yn rhan ddwyreiniol o ddalgylch Y Gader, Dolgellau, a hynny wedi cyfnod o ymgynghoriad statudol. |
| **ARGYMHELLIAD** | Cymeradwyo'r Argymhellion |
| **AWDUR** | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Liz Saville Roberts |

**NODYN**:
Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn dilyn ymgynghoriad statudol ar gynigion i ad-drefnu ysgolion yn rhan ddwyreiniol o ddalgylch Y Gader. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu gofynion proses statudol, canllawiau Llywodraeth Cymru a Strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*. Mae'r ddogfen yma'n cynnwys y canlynol:

## MYNEGAI


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Adroddiad Llawn** | **Cyflwyniad** | **2** |
| | **Adolygu Dalgylch Y Gader** | **3** |
| | **Cynigion Dalgylch Y Gader** | **6** |
| | **Yr Ymgynghoriad Statudol** | **8** |
| | **Sylwadau Dderbyniwyd Yn Ystod Yr Ymgynghoriad Statudol** | **10** |
| | **Crynodeb o'r Cynigion** | **18** |
| | **Y Camau Nesaf** | **19** |
| | **Taith Trwy Bwyllgorau'r Cyngor** | **19** |
| | **Argymhellion** | **19** |
| **Atodiad 1** | **Dogfen Ymgynghorol Statudol** | **22** |
| **Atodiad 2** | **Cofnodion Cyfarfodydd Ymgynghoriad Statudol** | **56** |
| Atodiad 2.1 | Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol Brithdir 02-11-11 | 56 |
| Atodiad 2.2 | Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol Dinas Mawddwy 03-11-11 | 65 |
| Atodiad 2.3 | Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol Machreth 07-11-11 | 74 |
| Atodiad 2.4 | Cofnodion Cyfarfodydd Ysgol Ieuan Gwynedd 09-11-11 | 87 |
| **Atodiad 3** | **Dadansoddiad ac Ymateb Y Cyngor i Sylwadau o'r Ymgynghoriad Statudol** | **101** |
| Atodiad 3.1 | Dadansoddiad ac Ymatebion i Gohebiaeth Yr Ymgynghoriad Statudol | 101 |
| Atodiad 3.2 | Dadansoddiad Ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc | 143 |
| **Atodiad 4** | **Rhestr Dogfennau Cefndirol a Gwybodaeth Bellach** | 152 |


Cynhyrchir dadansoddiad o'r sylwadau dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cytunwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Statudol y byddai copïau o'r ymatebion ysgrifenedig yn cael eu hanfon at Aelodau Etholedig. Sicrheir bod copïau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio (yn dilyn golygu gwybodaeth bersonol am unigolion er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998) a gellir eu gweld yn Swyddfeydd y Cyngor yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau, Llyfrgell Dolgellau ac ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cafodd Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd ei sefydlu ym Mehefin 2008.

1.2 Cynhaliwyd 15 cyfarfod i drafod amrediad o dystiolaeth, yn cynnwys cyflwyniadau gan:

- Lywodraeth Cymru
- ESTYN / Swyddfa Archwilio Cymru
- Cymdeithas yr Iaith
- Cynghrair Ysgolion a Chefnogwyr
- Prifathrawon yn cynrychioli ysgolion bychain, canolig eu maint a mawr yng Ngwynedd
- 'National Association for Small Schools'

1.3 Yn ystod Gwanwyn 2009, fe gyhoeddodd y Gweithgor Gwella ei strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.*

1.4 Cytunwyd bod angen i adolygu addysg ym mhob rhan o'r Sir, fesul dalgylch. Gosodwyd camau eglur ar gyfer cynnal y broses.

1.5 Roedd yn cynnwys rhestr o amcanion a meini prawf i'w cadw mewn cof wrth gynnal yr adolygiadau:

- Maint dosbarthiadau
- Poblogaeth a niferoedd disgyblion
- Amgylchedd dysgu'r plentyn
- Y Gymuned
- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau Daearyddol
- Amgylchiadau Eithriadol
- Cylchlythyrau *23/02*, *021/2009, 09/99* Llywodraeth Cymru

1.6 Datblygwyd amrediad o feini prawf penodol o gwmpas y ffactorau uchod. Wrth ystyried sefyllfa dalgylchoedd unigol yn erbyn y meini prawf, gwelwyd mai Tywyn oedd y dalgylch cyntaf i gael ei adolygu, wedyn Y Berwyn (Bala) ac yna dalgylch Y Gader (Dolgellau).

1.7 ***Cymeradwywyd y strategaeth yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009.***

1.8 Yn ystod Hydref 2009, cyhoeddwyd y cynigion dalgylchol cyntaf oedd yn argymell trefniadaeth newydd i ddalgylch Tywyn. Ymgynghorwyd ar y cynigion a cafwyd penderfyniad i gyhoeddi rhybuddion statudol yn y dalgylch yn ystod Ionawr - Mawrth 2011. Cynhaliwyd y drafodaeth yn nalgylch Y Berwyn yn yr un modd, a daeth y Cyngor Llawn i benderfyniad mis Mai 2011.

1.9 Amlinellir yn yr adroddiad yma gynigion ar gyfer ad-drefnu addysg yn ardal dwyrain dalgylch Y Gader.

## 2. ADOLYGU DALGYLCH Y GADER

### *2.1 Dulliau cyfathrebu*

2.1.1 Sefydlwyd nifer o fforymau i geisio barn wrth i'r Deilydd Portffolio Addysg ddatblygu ei chynigion, gan gynnwys:

- Panel Adolygu Dalgylch (PAD)
- Cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni pob ysgol
- Sesiwn i blant a phobl ifanc ysgolion
- Cyfathrebu ehangach

2.1.2 Sicrhawyd hefyd bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i bawb oedd â diddordeb a chyhoeddwyd yr holl wybodaeth a chofnodion PAD ar wefan y Cyngor.

### *2.2 Panel Adolygu Dalgylch Y Gader (PAD)*

2.2.1 Sefydlwyd PAD Y Gader yn ystod Ebrill 2010. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Panel ar 29 Ebrill 2010. Cynhaliwyd 5 cyfarfod pellach ar 13 Mai 2010, 25 Mai 2010, 6 Gorffennaf 2010, 25 Mai 2011 ac 13 Mehefin 2011.

2.2.2 Gwahoddwyd cynrychiolaeth - sef pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr a rhiant lywodraethwr - o bob un o'r naw ysgol gynradd yn y dalgylch. Estynnwyd gwahoddiad hefyd i bennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Y Gader, Cynghorwyr lleol, cynrychiolydd Esgobaeth Bangor a chynrychiolaeth o Goleg Meirion Dwyfor.

2.2.3 Derbyniwyd a thrafodwyd ystod o dystiolaeth gan y PAD, gan gynnwys pecyn o ystadegau ar yr ardal a gytunwyd gan y Panel cyfan fel adlewyrchiad cyflawn a theg. Wrth baratoi'r wybodaeth ystadegol, gofynnwyd i gynrychiolwyr ysgolion gyflwyno'u sylwadau, herio cynnwys y papurau a gofyn am unrhyw wybodaeth bellach fel yr oedd ei angen.

2.2.4 Cyflwynwyd hefyd wybodaeth ar:

- Y cyd-destun ariannol
- Gwybodaeth am ddatblygiadau cenedlaethol gan gynnwys arweiniad y Llywodraeth ar drafod cynigion i ad-drefnu ysgolion a rheoliadau newydd ar sefydlu patrymau o gydweithio rhwng ysgolion

2.2.5 Paratowyd rhestr hir o opsiynau posib ar gyfer ad-drefnu ysgolion y dalgylch. Mireiniwyd y rhestr hir i 14 prif fodel i'w hystyried ymhellach. Derbyniwyd dadansoddiad o oblygiadau addysgol, rheolaethol ac ariannol pob un cynnig yng nghyfarfod y Panel ar 25 Mai 2010, a thrafodwyd yr opsiynau eto mewn manylder yng nghyfarfod y PAD ar 6 Gorffennaf 2010 a chyfarfodydd dilynnol. Trafodwyd 14 model yn cwmpasu:

- ➢ Datblygu modelau o gydweithio
- ➢ Modelau o ysgolion ardal wledig
- ➢ Cymuned Ddysgu neu Ysgol Gydol Oes

### *2.3 Cyfarfodydd gydag ysgolion unigol*

2.3.1 Cynhaliwyd ymweliad â phob ysgol yn y dalgylch gan y Deilydd Portffolio Addysg a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol ar gychwyn y broses. Pwrpas yr ymweliad oedd cyfarfod penaethiaid ac i weld a dod i ddeall sefyllfaoedd ysgolion unigol.

2.3.2 Cynhaliwyd un cylch o gyfarfodydd gydag ysgolion unigol yn ystod y broses, yn ystod cyfnodau 7 Mehefin - 23 Mehefin 2010. Estynnwyd gwahoddiad agored i staff, llywodraethwyr a rhieni i fynychu cyfarfodydd ar wahân. Bu cyfle i drafod materion cyffredinol gan gynnwys y modelau penodol oedd dan sylw.

2.3.3 ***Cynhaliwyd felly 30 o gyfarfodydd unigol ar draws cyfnod o 16 diwrnod gyda chynrychiolwyr ysgolion unigol.***

### *2.4 Plant a Phobl Ifanc*

2.4.1 Gofynnwyd am farn plant a phobl ifanc wrth i'r broses fynd yn ei blaen. Cytunwyd i hyn gan gynrychiolwyr pob ysgol.

2.4.2 Hysbyswyd ysgolion unigol y byddai'r sesiwn ar gyfer plant a phobl ifanc yn digwydd yn Ysgol Uwchradd Y Gader. Gofynnwyd i ysgolion drefnu cynrychiolaeth o aelodau'r Cyngor Ysgol, a chytunwyd y dylid cynnwys 3-4 o blant o bob ysgol. Hwyluswyd y sesiwn ar 5 Gorffennaf 2010 gan swyddogion arbenigol y Cyngor.

2.4.3 Cynhaliwyd ystod o weithgareddau er mwyn canfod barn plant a phobl ifanc ar nifer o bynciau, gan gynnwys:

- maint dosbarthiadau
- ystod oedran o fewn dosbarth
- iaith plant tu allan i'r ystafell dosbarth
- pellteroedd teithio i'r ysgol

2.4.4 Wrth gloi'r sesiwn, gofynnwyd i blant a phobl ifanc awgrymu'r math o gyfleusterau yr hoffent eu gweld mewn ysgol. Yn gyffredinol, dangosodd y plant deyrngarwch i'w hysgolion a'u hathrawon tra hefyd yn adnabod nifer o adnoddau yr hoffent weld yn eu hysgolion.

### *2.5 Mewnbwn Aelodau*

2.5.1 Wrth dderbyn strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* yn ddiwrthwynebiad, rhoddodd y Cyngor ganiatâd i aelodau'r Gweithgor Gwella Ad-drefnu Addysg barhau fel fforwm i gefnogi'r Deilydd Portffolio Addysg wrth iddi arwain adolygiadau fesul dalgylch. Gwnaethpwyd hynny dan enw *Panel Ymgynghorol Sirol.*

2.5.2 Yn ystod y broses o drafod yn nalgylch Y Gader, fel rhan o adolygiad o weithrediad y Strategaeth Ad-drefnu disodlwyd y Panel Ymgynghorol Sirol gan Weithgor Gwella sydd yn gweithredu i raglen waith a briff Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

2.5.3 Fel rhan o'r adolygiad yn ogystal, penderfynwyd fod angen sicrhau fod Aelodau lleol yn cyfarfod yn ystod y broses o ad-drefnu dalgylch.

2.5.4 Bu pedwar cyfarfod o'r Panel Ymgynghorol Sirol i drafod datblygiadau yn nalgylch Y Gader, ar 24 Chwefror 2010, 24 Mawrth 2010, 8 Gorffennaf 2010 a 21 Hydref 2010. Yn ogystal, bu cyfarfod ar y cyd rhwng Aelodau Lleol ac Aelodau'r Gweithgor ar 18 Mai 2011. Trafodwyd sefyllfa'r dalgylch a chynigiwyd yr opsiynau ar gyfer ad-drefnu ysgolion y cylch, ochr yn ochr â dadansoddiad o fodelau a gynigiwyd gan y Panel Adolygu Dalgylch.

2.5.5 ***Trafodwyd y modelau ar gyfer y dalgylch yn ofalus gan y PAD, y Gweithgor Gwella Ad-drefnu Addysg a'r Aelodau Lleol - a mynegodd yr Aelodau eu sylwadau.***

### *2.6 Asesiad o Effaith Cymunedol, Ieithyddol a Chydraddoldeb*

2.6.1 Fel rhan o'r broses comisiynwyd ymgynghorydd annibynnol i gynnal asesiad o effaith ieithyddol a chymunedol a chydraddoldeb posib yr amryw gynigion ad-drefnu. Adroddwyd na ellid disgwyl unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol oddi wrth y cynnig ysgol ardal aml-safle.

2.6.2 Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag ysgolion unigol i gasglu gwybodaeth a chanfyddiadau. Paratowyd holiadur i gasglu barn staff, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach i'r opsiynau. Cylchredwyd copïau electroneg a chaled o'r holiadur.

2.6.3 Cyflwynwyd canfyddiadau'r asesiadau mewn cyfarfod arbennig o'r PAD ar 29 Mehefin 2010. Mae canlyniadau'r asesiadau wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynigion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac ystyrir eu canfyddiadau ymhellach yn yr adroddiad hwn.

2.6.4 Darparwyd copïau o bob un o'r tri Asesiad Effaith i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol ac maen nhw ar gael yn y pecyn dogfennau cefndirol ac ar wefan y Cyngor.

2.6.5 Gellir gweld yr adroddiadau ar wefan y Cyngor, ac mae copïau ar gael i'w darllen yn y pecyn dogfennau cefndirol (Swyddfeydd y Cyngor, Llyfrgell Dolgellau).

### *2.7 Cyfathrebu ysgrifenedig*

2.7.1 ***Paratowyd newyddlenni i'w cylchredeg i bob ysgol yn ystod y trafodaethau dalgylch. Anfonwyd copïau caled at yr ysgolion i'w cylchredeg i bob rhiant, e-bostiwyd y newyddlenni at bob ysgol a chyhoeddwyd nhw ar wefan y Cyngor.***

2.7.2 Cyhoeddwyd holl bapurau'r PAD ar wefan y Cyngor.

2.7.3 Rhoddwyd manylion cyswllt swyddogion oedd yn ymwneud â'r gwaith ar y wefan.

### *2.8 Statws y broses*

2.8.1 Noder fod y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy hyd yn hyn yn rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth wrth lunio cynigion cychwynnol.

2.8.2 Lluniwyd y cynigion yn unol â'r arweiniad Cylchlythyron *021/2009* a 09/99.

### *2.9 Y Broses O Ddatblygu Cynigion Ar Gyfer Dalgylch Y Gader*

2.9.1 Daeth i'r amlwg yn fuan iawn yn ystod y broses o drafod opsiynau yn y dalgylch hwn nad oedd atebion clir a syml ymhob rhan o'r dalgylch. Yn wir, fel nodwyd eisoes, trafodwyd cymaint ag 14 o fodelau mewn manylder. Yn ystod pedwerydd cyfarfod o'r PAD, a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2010, penderfynodd yr Arweinydd Portffolio nad oedd modd dod i gasgliad â gwneud cynigion ar gyfer y dalgylch ar y pryd.

2.9.2 Roedd nifer o resymau dros oedi'r drafodaeth, y prif rai oedd yr angen i wneud gwaith ymchwil ar safleoedd a gwaith modelu, y newidiadau i argaeledd a dull ariannu prosiectau cyfalaf cenedlaethol a'r adolygiad o weithrediad *Strategaeth Ad-drefnu Cyngor Gwynedd.*

## 3 CYNIGION DALGYLCH Y GADER

3.1 Wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer y dalgylch, daeth i'r amlwg bod modd rhannu'r dalgylch yn dair rhan:

- Ochr Ddwyreiniol – Sydd yn cwmpasu Ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth (adweinir hefyd fel Ysgol Llanfachreth)
- Ochr Orllewinol – Sydd yn cwmpasu Ysgolion Clogau, Friog, Ganllwyd a Llanelltyd
- Tref Dolgellau – Sydd yn cwmpasu Ysgol Gynradd Dolgellau ac Ysgol Uwchradd Y Gader

3.2 Trafodwyd opsiynau yn seiliedig ar y dosbarthiad yma am y rhesymau canlynol:

- Lleoliad daearyddol ac amseroedd teithio
- Dymuniad lleol yn nodi na fyddai ysgol fawr wedi ei chanoli ar gyfer y dalgylch cyfan yn cael ei chefnogi
- Rhesymau datblygu safleoedd ac adeiladu
- Amcanion Strategaeth Ad-drefnu y Cyngor yn enwedig felly o ran sicrhau datblygu ysgolion i fod yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.

3.3 Wrth ddatblygu a thrafod opsiynau ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Y Gader, daeth i'r amlwg nad oedd modd cynnig ateb ar gyfer y dalgylch gyfan. Nodwyd fel un o egwyddorion y strategaeth ad-drefnu;

*"Bod graddfa, natur ac amserlen y newid am amrywio o ddalgylch i ddalgylch"*

3.4 Yn ystod y cyfnodau o ymgysylltu yn y ddau gyfarfod PAD diwethaf daeth i'r amlwg bod yn rhaid blaenoriaethu ymateb ar gyfer ardal ysgolion Brithdir, Machreth, Ieuan Gwynedd a Dinas Mawddwy yma am y rhesymau canlynol:

- Rhagolygon niferoedd mewn tair o'r ysgolion yn creu pryder. Mae'r rhagolygon fel a ganlyn ar gyfer 2014;
  Ysgol Ieuan Gwynedd – 16 (**ym Medi 2011 mae 16**)
  Machreth – 13 (**ym Medi 2011 mae 16**)
  Dinas Mawddwy – 20 (**ym Medi 2011 mae 22**)

- **Nifer o lefydd gweigion** (106 mewn nifer) **-** 54% o fewn y pedair ysgol neu 66% heb ystyried sefyllfa Ysgol Brithdir. Mae hyn yn golygu, wrth ystyried llefydd gweigion ysgolion Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth fod **mwy o lefydd gweigion na sydd o blant yn mynychu'r ysgolion**

- **Pedair ysgol** yn yr ardal **yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol** trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae cyfanswm y swm ychwanegol hwn yn £111,616 rhwng y 4 ysgol

- **Dyrennir cyfanswm o £593,916 i'r pedair ysgol** yn y rhan yma o ddalgylch Y Gader yn 2011/12. Mae hyn gyfystyr â £5,883 fesul disgybl ar gyfartaledd. Mae amrediad cost y pen rhwng ysgol Brithdir o £3,910; Ysgol Machreth yn £6,861; Ysgol Dinas Mawddwy yn £6,868; ac Ysgol Ieuan Gwynedd yn £7,519. Cyfartaledd cost y pen Sirol am y cyfnod hwn yw **£3,352**

- Roedd ansicrwydd ar y pryd ynglŷn â sefyllfa arweinyddiaeth 2 ysgol o ganlyniad i drosiant staff. Bellach mae sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgolion fel a ganlyn: Ym Mrithdir,

Dinas Mawddwy a Llanfachreth - mae Pennaeth parhaol; yn Ieuan Gwynedd, mae Pennaeth dros dro

- Mae **Ysgol Brithdir yn orlawn** (Mae 45 disgybl mewn ysgol â chapasiti i 38)
- Mae Ysgol Dinas Mawddwy yn **darparu addysg ar gyfer ardal eang** mewn ardal ddaearyddol eang

3.5 Ar Fehefin 13, 2011 cyflwynodd y Deilydd Portffolio Addysg ei chynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion dalgylch Y Gader i'r Panel Adolygu'r Dalgylch, sef:

- Sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle - gydag un safle'r ysgol ar leoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy a'r safle arall unai ar leoliad presennol ysgol Brithdir neu ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain. Golygai hyn y byddai'r naill leoliad neu'r llall yn cau fel ysgol. Fel rhan o'r argymhelliad hwn bydd ysgol Machreth yn cau yn ogystal â'r ddarpariaeth yn cael ei gynnig yn yr Ysgol Ardal newydd.
- Oedi'r drafodaeth am y tro yn ardal Orllewinol y dalgylch, (dalgylch Ysgolion Clogau, Friog, Ganllwyd a Llanelltyd) gan sicrhau fod yr ardal yma o'r dalgylch yn cael ei flaenoriaethu yn rhan nesaf o'r broses ad-drefnu ysgolion.
- Yr argymhelliad ar gyfer tref Dolgellau sefydlu Cymuned Ddysgu (ysgol) gydol oes aml-safle 3 i 16 oed.

3.6 Roedd teimlad nad oedd modd oedi'r gweithredu yn y rhan yma o'r dalgylch oherwydd ei sefyllfa fregus. Golygai hyn felly, tra yn gresynu na fyddai modd cael ysgol newydd, fod angen symud ymlaen i ddatblygu Ysgol Ardal. **Yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2011, cadarnhaodd Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc y farn bod rhaid symud ar gynllun i gael ateb buan ar gyfer yr ardal.** Trafodwyd y mater ymhellach yng nghyfarfod Bwrdd y Cyngor ar 5 Gorffennaf 2011 lle cadarnhawyd y farn honno.

3.7 Yng nghyfarfod 14 Gorffennaf 2011 o'r Cyngor Llawn penderfynwyd cefnogi'r argymhellion canlynol;

3.7.1 Yn ddarostyngedig i benderfyniad ar leoliad arfaethedig yr ysgol ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ystod tymor Hydref 2011 ar y bwriad o sefydlu Ysgol Gymuned Ardal aml-safle 3 - 11 oed gydag un safle'r ysgol ar leoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy, a'r safle arall unai ar leoliad presennol Ysgol Brithdir, neu Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain i agor 1 Medi 2013.

3.7.2 Er sefydlu yr Ysgol Ardal arfaethedig ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ystod tymor Hydref 2011 ar gau Ysgolion Machreth, Dinas Mawddwy, Brithdir ac Ysgol Ieuan Gwynedd ar 31 Awst 2013.

3.7.3 Argymhelliad i'r Cyngor ddirprwyo, i Fwrdd y Cyngor, y penderfyniad ar leoliad yr Ysgol Ardal arfaethedig ar gyfer ymgynghori unai ar safle presennol Ysgol Brithdir neu ar safle presennol Ysgol Ieuan Gwynedd.

3.7.4 Argymhellir cefnogi'r bwriad o ymgynghori ar egwyddor o sefydlu Gymuned Ddysgu (Ysgol) Gydol Oes aml-safle 3 i 16 oed yn nhref Dolgellau i agor ar 1 Medi 2013.

3.7.5 Argymhelliad i'r Cyngor ddirprwyo'r penderfyniad ar statws cyfreithiol y Gymuned (Ysgol) Ddysgu Gydol Oes 3 - 16 oed arfaethedig i Fwrdd y Cyngor er mwyn caniatáu ymgymryd â gwaith pellach gan gynnwys ystyried yr opsiynau o gau ac ail agor yr ysgolion neu greu Ysgol Ffederal ynghyd a sefydlu'r drefn ymgynghori statudol briodol ar gyfer symud y broses ymlaen.

3.8 Yn unol â'r penderfyniad hwn, cafwyd arweiniad gan y Bwrdd yn ei gyfarfod Hydref 11, 2011 ynglŷn â lleoliad yr Ysgol Ardal arfaethedig. Penderfynwyd eisoes lleoli un safle ar leoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy a phenderfynodd y Bwrdd y dylid ymgynghori ar leoli safle'r arall fod ar leoliad presennol Ysgol Brithdir.

3.9 Aethpwyd ati i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd ac Machreth, a sefydlu Ysgol Ardal Aml-Safle ar leoliad presennol Ysgolion Brithdir a Dinas Mawddwy. Yma, adroddir ar y sylwadau a'r farn a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol.

3.10 Adroddwyd i Fwrdd y Cyngor 11 Hydref 2011 y diweddaraf o ran trafodaethau ynglŷn â sefydlu'r Gymuned Ddysgu Gydol Oes yn nhref Dolgellau. Adroddwyd ar y sefyllfa, ac eglurwyd oblygiadau opsiynau gwahanol a phenderfynwyd fod angen parhau â'r trafodaethau gan adrodd yn ôl i'r Bwrdd pan fyddai argymhelliad clir. Mae trafodaethau wrthi yn cael eu cynnal rhwng cyrff llywodraethu yr ysgolion yn nhref Dolgellau, cynrychiolaeth o'r Eglwys yng Nghymru a'r Cyngor. Bydd y trafodaethau hyn yn parhau dechrau'r flwyddyn a gobeithir adrodd yn ôl i'r Bwrdd dechrau'r flwyddyn.

## 4. YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

4.1 Yn unol â'r gofynion statudol a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, fe ymgymerodd Cyngor Gwynedd â chyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion gyda'r rhai perthnasol oedd â diddordeb, o 21 Hydref hyd at 13:00 ar 25 Tachwedd 2011 ar y cynnig i gau ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth a sefydlu Ysgol Ardal aml-safle ar safleoedd presennol ysgolion Brithdir a Dinas Mawddwy.

4.2 Paratowyd papur Ymgynghori Statudol, a'i ddosbarthu i'r rhai perthnasol i ymgynghori â hwy yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth.

4.3 Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori statudol gyda staff, llywodraethwyr a rhieni ym mhob un o'r ysgolion hyn, rhwng 2 a 9 Tachwedd 2011. Cofnodwyd y cyfarfodydd hyn gan swyddogion o'r Cyngor, a dosbarthwyd y rheiny i'r ysgolion perthnasol. Mae'r cofnodion y cytunwyd arnynt ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel Atodiad 2. Roedd amserlen y cyfarfodydd isod.

Tabl 1: Amserlen Cyfarfodydd Statudol

| Ysgol | Cyfarfod Staff | Cyfarfod Llywodraethwyr | Cyfarfod Rhieni |
|---|---|---|---|
| **Brithdir** | 02/11/11 - 4pm | 02/11/11- 5pm | 02/11/11 - 6pm |
| **Dinas Mawddwy** | 03/11/11 - 4pm | 03/11/11 - 5pm | 03/11/11 - 6pm |
| **Machreth** | 07/11/11 - 4pm | 07/11/11 - 5pm | 07/11/11 - 6pm |
| **Ieuan Gwynedd** | 09/11/11 - 4pm | 09/11/11 - 5pm | 09/11/11 - 6pm |

4.4 Cytunwyd yn ystod cyfarfodydd Ymgynghori Statudol y byddai cofnodion o'r cyfarfodydd a chopïau o ymatebion mewn ysgrifen yn cael eu darparu i Aelodau Etholedig. Cyflwynwyd copïau llawn i'r holl Gynghorwyr. Bydd copïau ar gael i'r cyhoedd eu gweld (yn amodol ar olygu gwybodaeth bersonol am unigolion er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu

Data 1998) a gellir eu gweld yn Swyddfeydd y Sir yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau a llyfrgell Dolgellau.

4.5 Roedd Cyngor Gwynedd yn awyddus fod disgyblion yn cael cynnig y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghori yn ogystal. Cynigiodd y Cyngor ddwy ffordd i ysgolion o wneud hyn - naill ai drwy drefnu i hwylusydd annibynnol gynnal gweithdy efo'r disgyblion neu drwy baratoi holiadur i'w chwblhau gan ddisgyblion. Dewisodd y pedair ysgol weinyddu'r ymarfer eu hunain a chwblhau'r holiadur. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad 3.2.

4.6 Erbyn 13:00 ar 25 Tachwedd 2011, roedd cyfanswm o 65 o ymatebion wedi cyrraedd. Mae manylion yr ymatebion isod:

Tabl 2: Nifer a Manylion Y Gohebiaeth a Dderbyniwyd Yn Ystod Yr Ymgynghoriad Statudol

| Ysgol | Llythyrau | | | E-bost | | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dwyieithog | Cymraeg | Saesneg | Cymraeg | Saesneg | | |
| **Brithdir** | 0 | 16 | 5 | 0 | 0 | 0 | **21** |
| **Dinas Mawddwy** | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | **2** |
| **Ieuan Gwynedd** | 0 | 8 | 1 | 7 | 3 | 0 | **19** |
| **Machreth** | 1 | 9 | 6 | 1 | 0 | 1 deiseb gyda 208 o enwau | **18** |
| **Cyffredinol** | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | **5** |
| **CYFANSWM** | **1** | **38** | **12** | **10** | **3** | **1** | **65** |
| | **51** | | | **13** | | | |

## 5. SYLWADAU DDERBYNIWYD YN YSTOD YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

5.1 Pwrpas rhan yma o'r adroddiad yw cyflwyno ymateb y Cyngor i rai o'r prif bwyntiau ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghoriad statudol. Gwnaethpwyd ddadansoddiad o'r holl ymatebion ac mae adroddiad ansoddol ar y sylwadau dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny ynghlwm yn Atodiad 3.1.

5.2 O ran yr ymateb yn gyffredinol yn ystod yr ymgynghoriad, gellir nodi fod cefnogaeth gyffredinol i'r syniad o sefydlu Ysgol Ardal Aml-Safle. Y pryder amlycaf a godir yw fod ymatebion gan ymgynghorai o Rhydymain a Llanfachreth yn nodi pwyntiau ynglŷn a dewis safle'r ysgol gan nodi rhinweddau safle o fewn eu cymunedau hwy. Wedi dweud hynny, mae cefnogaeth i'r cynnig o leoli'r safle ym Mrithdir.

5.3 Roedd yr ymatebion a sylwadau mewn ysgrifen a gafwyd yn ystod cyfarfodydd statudol yn y pedair ysgol yn canolbwyntio'n gyffredinol ar y materion amlinellir isod:

- Materion Addysgol – Cynnwys Niferoedd, Maint Dosbarthiadau a Safonau Addysg
- Cludiant, Diogelwch ffyrdd ac Amseroedd Teithio
- Dewis Safleoedd Yr Ysgol Ardal Aml-Safle
- Ansawdd ac Addasrwydd Adeiladau
- Cyllid
- Arweinyddiaeth a Staffio
- Yr Iaith Gymraeg
- Materion Cymunedol
- Effaith ar Ddarpariaeth Addysg 'Eglwysig'

### 5.4 Materion Addysgol – Cynnwys Niferoedd, Maint Dosbarthiadau a Safonau Addysg

5.4.1 Mae niferoedd disgyblion oed cynradd y rhan yma o'r dalgylch wedi amrywio yn fawr ers 1975. Wrth edrych ar y ffigyrau hyd at 2011, gwelwyd cynnydd mewn un ysgol (cynnydd sylweddol - 114% yn niferoedd Ysgol Brithdir) a lleihad mewn tair ysgol arall. Yn ôl ffigyrau a gyflwynwyd gan ysgolion unigol, disgwylir i'r niferoedd leihau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Ysgol Brithdir yw'r unig ysgol sydd ddim yn rhagweld lleihad.

Tabl 3: Niferoedd 1975-2011

| Ysgol | 1975 | 1980 | 1985 | 1990 | 1995 | 2000 | 2005 | 2010 | 1975-2010 (newid) | 1975-2010 (% newid) | 2011 | 1975-2011 (newid) | 1975-2011 (% newid) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Brithdir | 21 | 18 | 23 | 24 | 22 | 43 | 38 | 40 | 19 | 90% | 45 | 24 | 114% |
| Dinas Mawddwy | 38 | 43 | 38 | 52 | 44 | 37 | 34 | 25 | -13 | -34% | 22 | -16 | -42% |
| Ieuan Gwynedd | 31 | 31 | 32 | 28 | 24 | 17 | 26 | 19 | -12 | -39% | 16 | -15 | -48% |
| Machreth | 17 | 11 | 18 | 25 | 32 | 27 | 26 | 22 | 5 | 29% | 16 | -1 | -16% |

5.4.2 Maint dosbarthiadau'r pedair ysgol ar gyfartaledd heddiw yw 12, gydag amrediad niferoedd mewn dosbarth rhwng 4 ag 27. Nodir fod Ysgol Brithdir dros ei chapasiti a'r 3 ysgol arall gyda nifer o lefydd gweigion (Ysgol Machreth = 65% [30], Ysgol Ieuan Gwynedd = 64% [29], Ysgol Dinas Mawddwy = 68% [47] felly, rhwng y tair ysgol = 66% [106]). Mae dau ddosbarth ym mhob un o'r pedair ysgol ar hyn o bryd.

5.4.3 Mae'r strategaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009 yn nodi uchelgais i sicrhau dosbarthiadau rhwng 12-25 o ddisgyblion. O wireddu'r argymhellion, bydd maint dosbarthiadau'r Ysgol Ardal Aml-Safle ar gyfartaledd oddeutu 20. Rhagwelir mai cyfartaledd maint dosbarthiadau prif safle'r ysgol fydd 25, tra bydd maint dosbarthiadau'r ail safle yn oddeutu 12. O wireddu'r cynnig byddai gan yr Ysgol Ardal oddeutu 96 o ddisgyblion, gydag oddeutu 73 o ddisgyblion ar un safle ac oddeutu 23 ar safle Dinas Mawddwy.

5.4.4 Er bod niferoedd Dinas Mawddwy yn isel, mae ffactorau eraill yn egluro pam yr argymhellir i gadw'r safle yn rhan o'r Ysgol Ardal. Mynegwyd pryder yn ystod yr ymgynghoriad ynglŷn a'r angen i sicrhau fod safle yn parhau yn Dinas Mawddwy. Tra na ellid warantu hynny, nodwyd fod y cynnig yn darparu lwfans i sicrhau fod y safle yn medru rhedeg fel rhan o drefniadaeth ysgol fwy.

5.4.5 Nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad fod safon addysg yr ysgolion o ansawdd dda yn bresennol. Noda arolygon diweddar Estyn fod y pedair ysgol yma'n darparu addysg o ansawdd dda heb ddiffygion o bwys. Ni fynegwyd pryderon nac amheuon am safon yr addysg yn unrhyw un o'r ysgolion, yn wir gwelir hyn fel rhinwedd gadarnhaol er mwyn sefydlu'r Ysgol Ardal.

Tabl 4: Canlyniadau arolygon diweddaraf Estyn

| | Ysgol Brithdir | Ysgol Dinas Mawddwy | Ysgol Ieuan Gwynedd | Ysgol Machreth |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad Arolwg** | Ionawr 2008 | Mai 2010 | Chwefror 2007 | Chwefror 2010 |
| **Manylion Adroddiadau Arolygu** | 3 x Gradd 1<br>4 x Gradd 2 | 7 x Gradd 2 | 1 x Gradd 1<br>6 x Gradd 2 | 5 x Gradd 1<br>2 x Gradd 2 |

Allwedd:
Canlyniadau Estyn – Gradd 1 = da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2 = nodweddion da a dim diffygion pwysig

5.4.6 Mae'r awdurdod o'r farn y byddai'r darpariaeth addysgol oddi fewn y cynnig yma yn cynnal ac mewn rhai agweddau yn gwella ansawdd addysg a'i gynigir i ddisgyblion fyddai'n mynychu'r ysgol ardal. Byddai cyfle i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn grwpiau mwy sylweddol gyda'u cyfoedion, gyda nifer fwy o athrawon all rannu a rhoi o'u harbenigedd. Yn wir wrth fynd ati i benodi staff i'r sefydliad newydd mae'n rhan o bolisi cyflogaeth amgen yr awdurdod (sydd ynghlwm a chynigion ad-drefnu ysgolion fel hyn) i warantu cyfweliadau i aelodau o staff sy'n cael eu cyflogi yn yr ysgolion presennol. Mae'r awdurdod yn rhagweld y bydd gan llywodraethwr y sefydliad newydd ddewis o blith staff addysgu a chefnogol safonol er mwyn ymuno a'r tim ysgol i barhau i gynnal safonau uchel.

## 5.5 Cludiant, Diogelwch Ffyrdd ac Amseroedd Teithio

5.5.1 Mae strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd yn nodi'r amcan o sicrhau nad yw disgyblion yn teithio mwy na 30 munud mewn un cyfeiriad i'r ysgol. Anelwyd at gyfyngu teithio lle bo hynny'n bosib. Mae'r cynnig gerbron yn cyfarfod â gofynion y strategaeth o safbwynt teithio, sef i gyfyngu teithio i ddim mwy na 30 munud un ffordd. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor.

5.5.2 Cafwyd cryn gefnogaeth i'r argymhelliad i barhau â'r ddarpariaeth addysgol ar safle Ysgol Dinas Mawddwy o fewn fframwaith fwy yr Ysgol Ardal. Wrth ddatblygu'r cynigion, ystyriwyd fod Ysgol Dinas Mawddwy eisoes yn Ysgol Ardal, ac yn darparu addysg ar gyfer ardal eang ble mae rhai plant eisoes yn teithio peth pellter i'r ysgol. Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith fod lleoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy gryn bellter o'r lleoliadau eraill, dros 8 milltir o'r lleoliad agosaf yn Gwynedd. Ystyriwyd hefyd amser teithio rhai disgyblion Dinas Mawddwy o'u cartrefi gan fod rhai yn teithio hyd at 25 munud i'r ysgol eisoes.

5.5.3 Codwyd cwestiynau yn ystod yr ymgynghoriad ynglŷn â'r angen i blant symud rhwng safle Dinas Mawddwy a'r Brithdir. Mater i'r Corff Llywodraethol a'r Pennaeth fydd symud plant o un safle i'r llall, ond ni rhagwelir hynny yn digwydd yn rheolaidd.

5.5.4 Roedd pryderon ynglŷn a diogelwch ffordd a sefyllfa parcio ger safle ysgol Brithdir ar hyn o bryd. Fel rhan o'r datblygiad bydd mynediad newydd yn cael ei chreu a bydd y ffordd yn cael ei sythu ger yr ysgol i wella gwelededd. Yn ogystal, argymhellir creu man parcio addas fel bod modd cludo disgyblion yn ddiogel i'r ysgol. Ymhellach, awgrymir edrych ar fesurau cyfyngu cyflymder y tu allan i safle'r ysgol.

5.5.5 Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, bydd dapariaeth wedi ei gwneud i sicrhau y bydd darpariaeth i gludo disgyblion o gyfeiriad Rhydymain a Llanfachreth. Ar hyn o bryd, yn ôl y ffigyrau presennol, rhagdybir y bydd angen 2 fws bychan i gludo disgyblion o'r cyfeiriadau hyn i'r brif safle'r ysgol. Nodir yn Arolygiad Estyn o Ysgol Brithdir :
"Gofelir yn dda am ddiogelwch y disgyblion. Cant eu goruchwylio'n ofalus wrth gyrraedd a gadael yr ysgol ac yn ystod amserau egwyl. Sefydlwyd polisiau addas ar gyfer sicrhau lles a diogelwch y plant sy'n gweithredu'n briodol. Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer cynnal asesiadau risg tra bod disbyblion yn yr ysgol ac oddi ar y safle."
Nid oes dim i nodi na fydd trefniadau cadarn fel hyn yn gallu parhau dan drefniant Ysgol ardal fel y cynnig.

5.5.6 Soniwyd hefyd am bryderon eraill fel un o'r troadau tuag at Brithdir oddi ar yr A470. Eglurwyd fod cynllun arfaethedig gan Lywodraeth Cymru fydd yn golygu gwelliannau i'r rhan yma o'r ffordd fydd hefyd yn gwella'r troad i lawr tuag at Brithdir. Tebygolrwydd cryf y bydd y gwaith hwn wedi ei wneud erbyn i'r ysgol gael ei datblygu. Soniwyd hefyd am bryderon ynglŷn â phont ar un o'r ffyrdd i'r Brithdir. Cafwyd barn y Gwasanaeth Priffyrdd am y sefyllfa yma, a nodwyd fod y bont yn ddiogel, ond bod rhaid i draffig arafu wrth ei chroesi gan ei bod yn gul.

## 5.6 Dewis Safleoedd Yr Ysgol Ardal Aml-Safle

5.6.1 Ymgynghorwyd ar y bwriad i leoli'r ysgol ar ddwy safle. Penderfynwyd, oherwydd ffactorau daearyddol ac amseroedd teithio, argymell fod un safle ar leoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy a'r safle arall ar safle presennol ysgol Brithdir am nifer o resymau eraill.

5.6.2 Wrth ystyried lleoliadau ar gyfer prif safle'r Ysgol, rhoddwyd ystyriaeth gychwynnol i safle presennol ysgol Machreth, ond nodwyd pryder ynglŷn â hyfywdra'r lleoliad oherwydd ei leoliad daearyddol a natur y rhwydwaith ffyrdd sy'n arwain ato. Edrychwyd ac aseswyd safleoedd presennol ysgolion Brithdir ac Ieuan Gwynedd, Rhydymain yn fanwl oherwydd eu lleoliad daearyddol o fewn yr ardal a'r rhwydwaith ffyrdd sy'n arwain atynt.

5.6.3 Bu i Fwrdd y Cyngor ystyried mater lleoliad y prif safle yn ei gyfarfod ar Hydref 11, 2011, gan bwyso a mesur p'un ai penderfynu ar safle presennol Ysgol Brithdir neu safle presennol Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain. Wrth gloriannu'n ofalus y ffactorau technegol; y ffactorau eraill sy'n berthnasol wrth ystyried datblygu ysgol ardal; sylwadau'r PAD a sylwadau'r Aelodau Lleol; argymhellwyd ymgynghori ar sail y bwriad i sefydlu un o safleoedd yr Ysgol Ardal ar safle presennol Ysgol Brithdir.

5.6.4 Yn ystod yr ymgynghoriad mynegwyd pryder gan rai fod yr argymhelliad o leoli prif safle'r ysgol ym Mrithdir, a nodwyd gan rhai ymgynghorai fod safle Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain yn llawer gwell safle i'w ddatblygu a hynny am lai o gost. Roedd ymgynghorai o Lanfachreth ar y llaw arall yn siomedig na fyddai'r ysgol yn y pentref hwnnw gan nodi rhinweddau'r safle hwnnw. Amlygwyd gan ymgynghorai rinweddau cadarnhaol safle presennol ysgol Ieuan Gwynedd, fel y cyswllt gyda neuadd y pentref, cyflwr yr adeilad presennol a chyflwr da y

ffordd tua'r ysgol. Mynegwyd pryderon ynglŷn a phroblemau a chost datblygu safle Brithdir. Mae manylion yr holl bwyntiau godwyd ac ymateb llawn gan y Cyngor i'r pwyntiau hynny yn Atodiad 3.1.

5.6.5 Pan ystyriwyd y mater gan Fwrdd y Cyngor, cafwyd cydnabyddiaeth fod datblygu safle Ysgol Ieuan Gwynedd yn haws, ond bod datblygu safle presennol Ysgol Brithdir yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau ysgol gynaliadwy a hyfyw ar gyfer y dyfodol am y rhesymau canlynol:

- Lleoliad daearyddol o ran hygyrchedd i ddisgyblion dalgylch yr Ysgol Ardal. Mae dros tri chwarter o blant yn byw yn nes i safle Brithdir nag i safle Ieuan Gwynedd
- Pellter o safle Dinas Mawddwy o ran amser teithio disgyblion a staff a phwysigrwydd hynny o ran rhediad Ysgol Ardal aml-safle
- Hyfywdra'r ysgol i'r dyfodol. Ymddengys tuedd gyffredinol dros y blynyddoedd fod cynnydd wedi bod yn niferoedd Ysgol Brithdir, tra bod niferoedd Ysgol Ieuan Gwynedd wedi gostwng yn yr un cyfnod. Gall fod nifer o resymau am hyn, ond nodir y lleoliad fel ffactor amlwg

Ategwyd y rhesymau hyn gan nifer yn ystod yr ymgynghoriad, ac hefyd nodwyd nifer o rinweddau eraill yn ogystal, yn cynnwys y cyswllt â'r ddarpariaeth feithrin lleol, a chyfleon dysgu yn sgil nodweddion naturiol arbennig yn yr ardal.

## 5.7 Ansawdd ac Addasrwydd Adeiladau

5.7.1 Mae strategaeth ad-drefnu yn nodi bod amgylchiadau addysgu a dysgu yn greiddiol i ddarparu addysg o'r radd flaenaf. Mae adroddiad Estyn *"Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd*" (2007) yn cadarnhau'r farn uchod. Noda'r adroddiad bod ysgolion oedd wedi gweld eu hadeiladau'n cael eu hadnewyddu wedi gweld gwelliant mewn cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion. Nodir bod arolygiadau Estyn o ysgolion unigol yn dangos bod ansawdd yr addysgu wedi gwella, bod morâl staff wedi codi, bod presenoldeb wedi'i gynnal ac ymddygiad wedi gwella a bod adeiladau sydd wedi eu gwella yn cynnig mwy o ddewis a darpariaeth well o ran addysg o fewn yr ysgol a gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol.

5.7.2 Wrth ddatblygu'r cynnig yma a thrafod opsiynau yn y cyfarfodydd PAD, amcangyfrifwyd y byddai datblygu adeilad ysgol o'r newydd yn costio oddeutu £3.8m. Ystyriwyd yr opsiwn yma, ond penderfynwyd datblygu un o safleoedd yr ysgolion presennol oherwydd bod angen symud i gael ateb buan ar gyfer sefyllfa'r ysgolion.

5.7.3 Os fydd y cynnig hwn yn cael ei weithredu, argymhellir buddsoddi a datblygu safle presennol ysgol Brithdir. Yn ystod yr ymgynghoriad mynegwyd pryder ynglŷn â pha mor addas yw adeilad presennol Ysgol Brithdir o gymharu â safle presennol ysgol Ieuan Gwynedd. Nodwyd y byddai angen uwchraddio safle Ieuan Gwynedd yn ogystal er mwyn cyrraedd yr un gofynion, petai wedi ei ddewis fel y prif safle i'w ddatblygu.

5.7.4 Datblygir safle Brithdir a bydd yr ystafelloedd dysgu yn cael ei hadeiladu o'r newydd mewn adeilad modern ac amgylcheddol gyfeillgar. Bydd yn darparu amgylchedd dysgu modern, ble byddai cyfleusterau technolegol diweddaraf ar gael. Rhagwelir y bydd yr adeilad presennol yn cael ei uwchraddio a'i addasu yn neuadd bwrpasol ac yn fan bwyta. Yn ystod y cyfnod ymgynghori trefnwyd ymweliad i gynrychiolaeth o'r bedair safle ag ysgol sydd wedi ei huwchraddio yn sylweddol yn y Sir yn ddiweddar. Roedd yr ymateb ar ôl yr ymweliad yn gadarnhaol iawn.

5.7.5 Cafwyd pryderon gan rai ymgynghorai ynglŷn â diogelwch mynediad i safle Ysgol Brithdir o'r ffordd. Fel rhan o'r datblygiad argymhellir byddai gwelliannau yn cael ei wneud i fynediad yr ysgol yn ogystal â chreu man parcio addas.

5.7.6 Nodwyd gan rhai pryderon fod cost y datblygiad yn uwch na'r hyn fyddai'r gost i ddatblygu safle Ieuan Gwynedd. Yn unol â phenderfyniad Bwrdd y Cyngor, ystyrir fod ffactorau perthnasol fel hyfywedd i'r dyfodol, hygyrchedd y safle i'r boblogaeth disgyblion, ymarferoldeb gweithredu fel un o safleoedd Ysgol Ardal Aml-Safle yn sgil agosatrwydd â Dinas Mawddwy, yn gorbwyso'r gost uwch.

5.7.7 Fel rhan o gamau i liniaru unrhyw effaith o gau ysgol mewn ardal, os oes dymuniad lleol ac os gweithredir y cynnig, bydd y Cyngor yn gofyn i'w Swyddogion Adfywio gefnogi'r cymunedau yn Llanfachreth a Rhydymain wrth ystyried unrhyw ôl-ddefnydd o dir ac adeiladau a ryddheir o ganlyniad i'r ad-drefnu. Bydd yr Eglwys ynghlwm ag unrhyw drafodaethau ar ôl-ddefnydd adeilad fel perchennog o rannau o'r tir yn Machreth. Gwneir hynny yn unol â pholisïau a phrotocol gweithredu y mae'r Cyngor eisoes wedi'u mabwysiadu yn ôl yn 2010.

## 5.8 Cyllid

5.8.1 Dyrennir cyfanswm o £593,916 i'r pedair ysgol yn y rhan yma o ddalgylch Y Gader yn 2011/12. Mae hyn gyfystyr â £5,883 fesul disgybl ar gyfartaledd. Mae amrediad cost y pen rhwng ysgol Brithdir o £3,910; Ysgol Machreth yn £6,861; Ysgol Dinas Mawddwy yn £6,868; ac Ysgol Ieuan Gwynedd yn £7,519. Cyfartaledd cost y pen Sirol am y cyfnod hwn yw £3,352.

5.8.2 Cyfanswm dyraniad newydd yn sgil y drefniadaeth a argymhellir ar gyfer yr ardal - ar sail y dyraniad cyfredol fyddai £413,803. O ran costau refeniw, byddai sefydlu'r drefniadaeth newydd yn arbed £180,000, llai anghenion cludiant ychwanegol (a amcangyfrifir fel £48,000), sef felly **£132,000** y flwyddyn.

5.8.3 Mae'r pedair ysgol yn yr ardal yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio sydd yn gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion. Mae cyfanswm y swm ychwanegol hwn yn £111,616. O gymharu, o wireddu'r cynnig, bydd swm ychwanegol o £69,069 i'r dyraniad arferol fel lwfans aml-safle.

## 5.9 Arweinyddiaeth a Staffio

5.9.1 Mae'r pedair ysgol heddiw yn derbyn cyllideb ddigonol i ariannu 8 o athrawon cynradd llawn amser, gyda phedwar ohonynt yn benaethiaid.

5.9.2 Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, wrth edrych ar y rhagolygon niferoedd mae'n debygol y byddai cyllideb ar gyfer 5 o athrawon cynradd (llawn amser) ar gyfer yr Ysgol Ardal yn ei chyfanrwydd. Mae union natur y cydweithio a rhannu staff rhwng dau safle'r ysgol i'w drafod ymhellach ac fyddai angen sylw Corff Llywodraethol yr Ysgol Ardal. Bydd yr ysgol yn endid newydd, a bydd gofyn felly sefydlu Corff Llywodraethu newydd ynghyd ag offeryn llywodraethu gan ddilyn canllawiau a rheoliadau cyfredol. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu newydd benodi'r Pennaeth a'r staff ar gyfer yr ysgol.

5.9.3 Mater i Gorff Llywodraethu'r Ysgol Ardal fydd ei strwythur staffio. Fodd bynnag, awgryma'r Cyngor y dylai'r Ysgol Ardal geisio clustnodi'r swyddi sy'n deillio o weithredu'r drefn newydd ar gyfer athrawon sydd yn gweithio o fewn y pedair ysgol yn y lle cyntaf, ac yna i ysgolion eraill dalgylch Y Gader. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion.

## 5.10 Yr Iaith Gymraeg

5.10.1 Cyflwynwyd dadansoddiad o gefndir ieithyddol pob ysgol ar sail gwybodaeth a gasglwyd wrth baratoi pecyn ystadegau cyflawn. Cafwyd cyfle i herio'r dystiolaeth, a gwnaethpwyd hynny gan rai yn ystod y trafodaethau dalgylch. Cytunwyd ar y dadansoddiad yn dilyn hynny. Rhoddwyd ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer y dalgylch i dynnu ysgolion ieithyddol tebyg at ei gilydd.

5.10.2 Comisiynwyd Asesiad o Effaith Ieithyddol yr amryw fodelau a ystyriwyd yn y dalgylch wrth ddatblygu'r cynnig hwn. Cyflawnir hyn yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru yng *Nghylchlythyron 9/99 a 021/2009*. Cyhoeddir yr adroddiad cyfan ar wefan y Cyngor. O ran y cynnig hwn o sefydlu'r Ysgol Ardal, noda'r Asesiad Iaith y byddai sefydlu'r model hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.

5.10.3 Yn ystod yr ymgynghoriad mynegwyd pryder gan rai fod cau rhai o'r ysgolion yn mynd i gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.

5.10.4 Mae dyfarniad sgôr asesiad Ysgol Ardal wledig (Brithdir, Machreth ac Ieuan Gwynedd ar un safle a disgyblion Dinas Mawddwy ar safle arall) yn > +6 Cadarnhaol. Nodir fod defnydd cymdeithasol iach o'r Gymraeg ymhob un o'r ysgolion - yn arbennig y tair ysgol fydd yn uno ar un safle. Nodwyd yn ogystal y gall y cynnig fod yn fodd o atgyfnerthu'r Gymraeg. **Daw'r asesiad i ganlyniad felly y byddai Ysgol Ardal yn fodd o atgyfnerthu'r Gymraeg a hynny mewn sefydliad mwy gallai ddatblygu'n bwerdy ieithyddol cadarnhaol.**

## 5.11 Materion Cymunedol

5.11.1 Mynegwyd pryderon ynglŷn ag effaith y cynnig ar y cymunedau hynny ble fydd yr ysgolion yn cau (sef Llanfachreth a Rhydymain). Nodwyd dyhead i sicrhau fod gweithgareddau'r ysgol yn parhau i gael eu cynnal ymhob un o'r cymunedau ac y byddai'r cau ysgolion yn medru cael effaith negyddol ehangach.

5.11.2 Cyhoeddwyd dadansoddiad o'r defnydd cymunedol o bob ysgol, a chyfraniad ysgolion i'w cymunedau, yn y pecyn ystadegol. Rhestrwyd hefyd adnoddau o fewn y cymunedau (e.e. canolfannau cymunedol, caeau chwarae ayb).

5.11.3 Mae canllawiau'r Llywodraeth (*Cylchlythyron 9/99 a 021/2009*) ar ad-drefnu ysgolion yn nodi ffactorau sydd angen eu hystyried wrth lunio cynigion i ad-drefnu ysgolion. Mae gwybodaeth ar y ffactorau a ystyriwyd yn nadansoddiad ystadegol o'r dalgylch ar gael ar wefan y Cyngor. Comisiynwyd astudiaeth o effaith cymunedol posib yr amryw opsiynau gan ymgynghorwyr annibynnol fel rhan o'r broses o ddatblygu cynigion. Yn ogystal, comisiynwyd asesiad o effaith economaidd i gyd-fynd â'r astudiaeth gymunedol. Gellir gweld yr adroddiadau ar wefan y Cyngor ac mae copïau ar gael i'w harchwilio yn y pecyn dogfennau cefndirol.

5.11.4 Wrth edrych ar asesiad a wnaethpwyd o effaith posib nifer o'r modelau cychwynnol ystyriwyd, roedd yr asesiadau cymunedol ac economaidd fel ei gilydd yn nodi categorïau o effeithiau mathau gwahanol o fodelau. Yn gryno, yr hyn nodwyd oedd bod cau ysgolion yn yr ardaloedd gwledig mewn unrhyw fodel yn cael effaith negyddol - golygai hyn fod unrhyw fodel o ysgol ardal neu fodel gydol oes yn cael effaith tebyg. Yr unig fodel na fyddai yn cael effaith negyddol - effaith niwtral, fyddai model o gydweithio golygai mewn gwirionedd na fyddai newid mewn presenoldeb ysgol o fewn pentrefi unigol.

5.11.5 Wrth i fodelau penodol gael eu datblygu – mireiniwyd yr asesiad ar gyfer y modelau Ysgol Ardal. Nodwyd fod cau ysgolion wrth sefydlu'r Ysgol Ardal yn mynd i gael effaith negyddol yn gymunedol ac yn economaidd yn y cymunedau hynny ble mae ysgolion yn cau. Ar y llaw arall,

wrth gydnabod fod perygl symud plant o leoliad Dinas Mawddwy yn rheolaidd, mae'r asesiad cychwynnol o fodelau â lloerennau yn nodi fod y math hwn o fodel yn llai niweidiol na chau'r safle.

5.11.6 Ar gyfer y cymunedau hynny ble fydd ysgol yn cau (sef Rhydymain a Llanfachreth), mae'r ardrawiad yn argymell rhai mesurau i'r Cyngor eu hystyried er mwyn lliniaru'r effaith negyddol. Byddai'r mesurau lliniaru hyn yn cael eu hymgorffori mewn rhaglen waith os penderfynir gweithredu ar yr argymhellion yn yr ardal. Rhai o'r mesurau yw:

- Sicrhau cefnogaeth i gymunedau ble mae ysgolion yn cau er mwyn ceisio cynnal sefyllfa'r cymunedau hynny
- Cynnig cefnogaeth i'r cymunedau hynny iddynt fedru ystyried defnydd gorau o adeilad yr ysgol ar ôl iddi gau
- Cynllunio i sicrhau fod yr Ysgol Ardal yn cynhwyso pentrefi dalgylch yr ysgol mewn gweithgareddau a chynnal gweithgareddau achlysurol yn y pentrefi hynny
- Cynnig darpariaeth cludiant i hwyluso cludiant plant o gymunedau yn effeithiol a diogel
- Ceisio cyfyngu amser teithio plant i'r Ysgol Ardal i'r targed Sirol (30 munud) gan asesu bodlonrwydd rhieni a phlant ar y trefniadau cludo o ran prydlondeb a diogelwch

## 5.12 Effaith ar Ddarpariaeth Addysg 'Eglwysig'

5.12.1 Mae gan Ysgol Machreth statws Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth (Eglwysig). Fel nodwyd gan y Cyngor eisioes, a gan rai ymgynghorai, yn cynnwys Bwrdd Addysg Statudol Esgobaeth Bangor, - byddai cau Ysgol Machreth yn cael oblygiadau o ran y ddarpariaeth Eglwysig yn yr ardal. Nodir hefyd mai yr Eglwys sydd â pherchnogaeth rhan o safle Ysgol Machreth, gyda rhannau eraill o'r tir â chyfamodau sy'n ystyriaeth ar gyfer unrhyw drafodaethau ôl-ddefnydd.

5.12.2 Er fod niferoedd yr ysgol wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd, gyda uchafswm o 37 o ddisgyblion yn 1997 a lleiafswm o 11 yn 1980, credir nad yw'r ddarpariaeth addysgol yn Ysgol Machreth bellach yn gynaliadwy. Mae niferoedd yr ysgol yn fregus, ar hyn o bryd 16 o ddisgyblion sydd yn yr ysgol ac mae 61% o lefydd gwag yn yr ysgol.

5.12.3 Nodir fod tair ysgol statws gyfreithiol 'Cymunedol' ynghlwm wrth y cynnig hwn. Nodir fod un o'r ysgolion hynny yn orlawn o ran capasiti. O ystyried hyn, awgrymir fod galw yn parhau'n gadarn am ysgol statws cymunedol o fewn yr ardal.

5.12.4 Credir fod buddion addysgol i'r disgyblion fod yn rhan o drefniant Ysgol Ardal. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i ddisgyblion elwa o gyfleusterau o fewn amgylchedd dysgu modern, ac yn creu cyfleoedd addysgol i ddisgyblion wrth iddynt fedru cymysgu gyda mwy o gyfoedion o'r un grŵp oedran. Credir y bydd y trefniant newydd hefyd yn sicrhau sefydlogrwydd i'r dyfodol o ran niferoedd.

5.12.5 Mae Ysgol Gynradd Dolgellau yn cynnig darpariaeth Eglwysig. Golyga hyn y byddai darpariaeth Eglwysig o fewn dalgylch Y Gader i ddisgyblion/rhieni sy'n awyddus i ddewis addysg Eglwysig. Wrth gwrs, mae cynnig arwahan wedi ei wneud i sefydlu Cymuned Dysgu Gydol Oes – rhwng yr ysgolion uwchradd a chynradd yn nhref Dolgellau.

5.12.6 Ynghlwm â datblygiad y sefydliad hwnnw, mae trafodaeth ynglŷn a natur a statws gyfreithiol y Gymuned Ddysgu Gydol Oes yn nhref Dolgellau yn parhau. Mae cynrychiolaeth yr Eglwys wedi datgan eu bod yn awyddus i sicrhau dewis o ddarpariaeth Eglwysig yn yr ardal drwy'r sefydliad hwnnw. Mae'r Cyngor yn nodi a chydnabod fod adnabod a diwallu yr angen am

addysg 'Eglwysig' yn ffactor pwysig wrth ystyried natur a statws y ddarpariaeth yn nhref Dolgellau. Ond o ran sefyllfa Ysgol Machreth a'r cynnig drafodir yma, credir fod yr argymhelliad yn ymateb i sefyllfa'r ddarpariaeth addysg yn y rhan hon o'r dalgylch oherwydd y rhesymau a nodwyd.

### 5.13 Cynigion Amgen

5.13.1 Wrth ddatblygu'r cynnig hwn paratowyd rhestr hir o opsiynau posib ar gyfer ad-drefnu ysgolion y cylch. Mireiniwyd y rhestr hir i 14 prif fodel i'w hystyried ymhellach. Derbyniwyd dadansoddiad o oblygiadau addysgol, rheolaethol ac ariannol pob un cynnig yng nghyfarfod y PAD ar 25 Mai 2010, a thrafodwyd yr opsiynau eto mewn manylder yng nghyfarfod y PAD ar 6 Gorffennaf 2010. Trafodwyd 14 model yn cwmpasu:

- Datblygu modelau o gydweithio
- Modelau o ysgolion ardal wledig
- Cymuned Ddysgu neu Ysgol Gydol Oes

5.13.2 Wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer yr ysgolion yma, roeddynt yn cael eu gwerthuso fel modelau o gydweithio; ysgolion ardal wledig; ac yn rhan o gynlluniau Cymuned Ddysgu Gydol Oes.

5.13.3 Aseswyd manteision ac anfanteision y gwahanol fathau o fodelau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y trafodaethau PAD. Mae ystyriaeth lawn o'r modelau hyn i'w gweld yn y pecyn cefndirol gyda manteision ac anfanteision yr holl fodelau ystyriwyd yn nhrafodaethau'r PAD ynghyd â gwybodaeth gyllidol wedi eu nodi.

5.13.4 Yn ystod yr ymgynghoriad, roedd cefnogaeth cyffredinol i'r model o Ysgol Ardal Aml-Safle wledig. Roedd mwyafrif helaeth o'r ymgynghorai yn cytuno â rhinwedd sefydlu Ysgol Ardal fel modd o ddarparu addysg wledig Gymreig yn yr ardal.

5.13.5 Roedd rhai ymgynghorai yn pryderu ynglŷn a'r dewis o leoliad ar gyfer prif safle'r Ysgol Ardal ym Mrithdir. Roedd ymgynghorai o gyfeiriad Rhydymain, ac i raddau llai o Lanfachreth, yn dryw i safleoedd eu hysgolion presennol fel safle ar gyfer yr Ysgol Ardal. Wedi dweud hynny, cafwyd cefnogaeth gadarn i'r cynnig o'i lleoli ar safle Ysgol Brithdir yn ystod y cyfnod ymgynghori.

5.13.6 Yn ogystal, yn ystod yr ymgynghoriad nodwyd gan rai ymgynghorai fod angen sicrhau darpariaeth addysg arbennig yn yr ardal fel a wneir ar hyn o bryd ar safle ysgol Ieuan Gwynedd. Dynodir ysgolion cynradd o fewn dalgylchoedd ysgolion uwchradd ble darperir cyfleusterau ar gyfer plant ag anghenion arbennig. Dynodwyd Ysgol Ieuan Gwynedd o fewn yr ardal yma. Cyn hyn roedd rhaid i ddisgyblion deithio'n all-sirol. Bydd yr Ysgol Ardal newydd yn gael ei gynllunio ar gyfer safonau Deddf Hawliau Anabledd 'D.D.A' a bydd Ysgol Gynradd Dolgellau yn cael ei dynodi ar gyfer darparu addysg arbennig yr ardal. Argymhellwyd eisioes fod buddsoddiad sylweddol wedi ei benodi ar gyfer uwchraddio ac addasu Ysgol Gynradd Dolgellau, felly bydd arbenigedd yn y dalgylch.

## 6 CRYNODEB O'R CYNNIG

6.1 Crybwyllir y rhesymeg ar gyfer y cynigion isod. Gwneir yr argymhellion hyn wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* a gofynion *Cylchlythyr 9/99a 021/2009*.

6.2 Nodir fod oblygiadau i gau Ysgol Machreth o ran darpariaeth addysg 'Eglwysig' yn yr ardal. Nodwyd uchod y rhesymau pam y cynigir nad yw Ysgol Machreth yn gynaliadwy a bod buddion i'w gael o drefniant addysgol newydd yn yr ardal. Mae dewis amgen o ddarpariaeth Eglwysig yn Ysgol Gynradd Dolgellau. Mae'r trafodaethau ar ddatblygu'r Gymuned Ddysgu Gydol Oes (rhwng ysgol gynradd ac uwchradd) yn nhref Dolgellau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, ac ynghlwm wrth hynny trafodir statws a natur y sefydliad hwnnw. Mae'r Cyngor yn nodi a chydnabod fod adnabod a diwallu yr angen am addysg 'Eglwysig' yn ffactor pwysig wrth ystyried natur a statws y ddarpariaeth yn nhref Dolgellau. Ond o ran sefyllfa Ysgol Machreth, credir fod y cynnig argymhellir yn ymateb i sefyllfa'r ddarpariaeth addysg yn y rhan hon o'r dalgylch oherwydd y rhesymau a nodwyd.

6.3 Mae ymateb o'r ymgynghoriad yn dangos fod **cefnogaeth i'r cynnig o sefydlu Ysgol Ardal** ymysg y cymunedau. Mae rhai ymgynghorai yn nodi buddion lleoli un o safleoedd yr ysgol ar safle arall o fewn eu cymunedau hwy, ond mae cefnogaeth i'r argymhelliad o ran y safle yn ogystal. Er fod sylwadau ar fater y safle, nodir fod y cynnig wedi cael cefnogaeth gyffredinol drwy'r ymgynghoriad a bod y cynllun yn fodd o **sicrhau darpariaeth addysg sefydlog mewn ardal wledig ac yn sicrhau dyfodol i'r Ysgol Ardal wledig**.

6.4 Edrychwyd ar fodd o **sicrhau cynaladwyedd a chefnogaeth** i safle sydd yn ddaearyddol eang ac sydd eisoes yn darparu addysg ar gyfer ardal eang.

6.5 Byddai'r trefniadau newydd yn darparu **cyfleon fwy cyfartal i bob plentyn** yn y rhan hwn o'r dalgylch i gael eu haddysgu mewn grwpiau o faint rhesymol yn ogystal â chyfleon i gyd-weithio a chwarae yn fwy rheolaidd gyda'u cyfoedion.

6.6 Mae'r cynigion hyn yn rhoi'r **cydbwysedd gorau rhwng darparu dysgu effeithiol mewn sefydliadau effeithlon wrth roi dewis i rieni**. Ni fyddai unrhyw blentyn yn gorfod teithio mwy na 30 munud i'r ysgol petai'r cynigion wedi cael eu gweithredu.

6.7 **Mae'r cynigion yn gyfle i ddatblygu'r berthynas ymhellach efo'r gymuned**. Mae angen i ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ddarparu gwasanaethau sy'n tynnu'r gymuned a'r ysgol ynghyd, clybiau cyn ac ar ôl ysgol, a gweithgareddau eraill wedi'u seilio ar y gymuned.

6.8 **Byddai gweithredu'r cynigion yn y dalgylch yn creu sefydlogrwydd ac yn sicrhau darpariaeth addysg mewn ardal wledig eang yn y rhan hwn o ddalgylch Y Gader.**

6.9 Rhoddir **mwy o sicrwydd staffio** yn yr ardal a chyfle i athrawon rannu arbenigeddau amrywiol a hynny i nifer ehangach o ddisgyblion. Bydd dosbarthiadau yn cynnwys llai o ystod oedran ac felly'n hwyluso cynllunio ac addysgu gan yr athrawon.

6.10 **Amcangyfrifir arbediad** blynyddol o £132,000 o weithredu'r cynnig.

6.11 Ystyriwyd opsiynau amgen ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn y rhan yma o'r dalgylch ond bernir fod y cynigion sydd gerbron yn cynnig y cydbwysedd gorau rhwng cynnal safonau addysg a sicrhau **Ysgol Ardal Aml-Safle sydd yn hyfyw.**

## 7 Y CAMAU NESAF

7.1 Os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion hyn, bydd rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi er mwyn:

7.2 Cau ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth ar 31 Awst 2013 yn unol â gofynion Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

7.3 Sefydlu Ysgol Gymuned Ardal Aml-Safle 3 – 11 oed i agor 1 Medi 2013 ar safleoedd presennol ysgolion Brithdir a Dinas Mawddwy, i ddarparu addysg ar gyfer dalgylchoedd presennol ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth yn unol â gofynion Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

7.4 Bydd y rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi yn y wasg leol a'u harddangos mewn mannau amlwg o fewn y dalgylch. Bydd cyfnod o un mis ar ôl y dyddiad cyhoeddi i ymateb i'r rhybuddion statudol.

7.5 Ar ddiwedd y cyfnod bydd y mater yn dod o flaen Bwrdd y Cyngor er mwyn cadarnhau'r bwriad os na cheir unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol i'r Rhybuddion Statudol. Os ceir gwrthwynebiadau ffurfiol i'r Rhybuddion Statudol, bydd y mater yn cael ei drosglwyddo i Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru am benderfyniad.

## 8 TAITH TRWY BWYLLGORAU'R CYNGOR

8.1 Cyflwynir adroddiad ar y cynnig hwn gerbron Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ar 9 Rhagfyr 2011, i Fwrdd y Cyngor 13 Rhagfyr 2011 ac yna'r Cyngor Llawn 15 Rhagfyr 2011.

8.2 Bydd barn a sylwadau'r Pwyllgor Craffu a'r Bwrdd yn cael eu cyfleu i'r Cyngor Llawn.

## 9 ARGYMHELLION

9.1 Cymeradwyo'r cynnig i gau ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth ar 31 Awst 2013, a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol â gofynion Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 er gweithredu hyn.

9.2 Cymeradwyo'r cynnig i sefydlu Ysgol Gymuned Ardal Aml-Safle 3 – 11 oed i agor 1 Medi 2013 ar safleoedd presennol ysgolion Brithdir a Dinas Mawddwy, i ddarparu addysg ar gyfer dalgylchoedd presennol ysgolion Brithdir, Dinas Mawddwy, Ieuan Gwynedd a Machreth, a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol â gofynion Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 er gweithredu hyn.

**Barn Swyddogion Statudol:**

1. Prif Weithredwr

   "Mae hwn yn gam ffurfiol pwysig o ran cwblhau cynigion y Cyngor i ad-drefnu addysg yn yr ardal hon. Mae'r adroddiad yn delio a'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol ond, oherwydd bod y Cyngor wedi edrych ar y gwahanol elfennau o'r prosiect yn drwyadl iawn, hyd y gwelaf, nid oes ystyriaethau newydd wedi codi nad yw'r Cyngor wedi eu hystyried eisoes wrth lunio'r cynigion a fu'n destun ymgynghori. Rwy'n cymeradwyo'r argymhellion."

2. Swyddog Monitro

   "Mae'r adroddiad a'r argymhellion yn dilyn canlyniad proses ymgynghori yn unol a gofynnion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Darperir gwybodaeth a sylwadau ar ganlyniad y broses ymgynghori ac mae'n ofynnol i'r Bwrdd gloriannu'r canlyniadau yma gyda'r ffactorau eraill perthnasol wrth ddod i benderfyniad ar yr argymhellion."

3. Prif Swyddog Cyllid

   "Mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i'r argymhellion a welir yn rhan 9 fel y cam diweddaraf o'r broses statudol yn sgil penderfyniadau blaenorol a gwaith trylwyr gan aelodau etholedig, penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr, swyddogion, ac eraill wrth geisio symud ymlaen yn briodol gydag adolygu trefniadaeth ysgolion cynradd yn nalgylch y Gader. Cadarnhaf gywirdeb y ffigyrau ariannol yn yr adroddiad (wedi'i grynhoi yn rhan 5.8 parthed dyraniadau, ayb). Mae'r achos busnes yn parhau'n gadarn, ac mae rhesymau amlwg i gefnogi'r argymhellion gerbron i weithredu'n ddi-oed. "

---

**Papurau Cefndir**

Bydd Aelodau wedi derbyn pecyn o wybodaeth cefndirol o flaen llaw. Gwelwch Atodiad 4 ar sut i weld a chael copi o'r dogfennau cefndirol